


Siarter y Gwasanaeth Ansolfedd



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE



INVESTOR IN PEOPLE

A BERR SERVICE

Cynnwys

1. Cefndir	4
2. Yr hyn ydym yn ei wneud	4
3. Yr hyn na allwn ei wneud	5
4. Cyflwyno Gwasanaeth	5
5. Sut ydym ni'n gwneud hyn?	5
6. Ymgynghori â defnyddwyr a'u cynnwys	5
7. Safonau'r gwasanaeth y gallwch eu disgwyl	7
8. Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud pan fyddwn yn cysylltu â chi	8
9. Targedau cyhoeddedig a safonau'r siarter	9
10. Eich barn chi	9
11. Os ydych yn credu fod rhywbeth wedi mynd o'i le	10
12. Ein Gwasanaethau	10
13. Cysylltiadau	12
Atodiad A. Rhestr o fudiadau defnyddiol	16
Atodiad B. Targedau cyhoeddedig y Gwasanaeth Ansoffedd 2008-09	18
Atodiad C. Perfformiad yn erbyn ein Safonau Siartr	19
Atodiad D. Rhestr Cyhoeddiadau	20

1. Cefndir

Mae'r Gwasanaeth Ansolfedd yn gweithredu yn unol â fframwaith statudol – yn bennaf, Deddfau Ansolfedd 1986 a 2000, Deddf Cwmnïau 1985, Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986, Deddf Hawliau Cyflogi 1996 a Deddf Cwmnïau 2006.

Mae ein staff wedi'u lleoli yn ein:

- rhwydwaith o 42 swyddfa Derbynyddion Swyddogol (DS) drwy Gymru a Lloegr;
- Cyfarwyddiaethau Gorfodi ac Archwilio yn Llundain, Birmingham, Manceinion a Chaeredin;
- Gwasanaethau Cyfrifon Stadau ym Mirmingham;
- Swyddfeydd Taliadau Diswyddo yng Nghaeredin, Birmingham a Watford;
- Cangen Archwilio Cwmnïau yn Llundain a Manceinion; a'n
- Gwasanaethau Corfforaethol a Busnes yn cynnwys swyddogaethau polisi yn Llundain, Birmingham a Leeds.

2. Yr hyn ydym yn ei wneud

Rydym yn:

- gweinyddu ac archwilio materion methdalwyr, cwmnïau a phartneriaethau sydd wedi cael eu dirwyn i ben gan y llysoedd, a sefydlu pam yr aethant yn ansolfent;
- gweithredu fel ymddiriedolwr / diddymwr lle na phenodwyd ymarferydd ansolfedd o'r sector preifat;
- gweithredu fel enwebai a goruchwyliwr mewn trefniadau gwirfoddol unigol llwybr carlam;
- mynd ag adroddiadau am gamymddygiad methdalwyr a chyfarwyddwyr yn eu blaen;
- delio â gwahardd cyfarwyddwyr anghymwys ym mhob methiant corfforaethol;
- delio â gorchmynion ac ymgymeriadau cyfyngiadau methdaliad;
- awdurdodi a rheoli'r proffesiwn ansolfedd;
- asesu a thalu hawliad statudol i daliadau diswyddo pan fydd cyflogwr yn methu neu'n gwrthod talu ei weithwyr;
- darparu gwasanaethau cyfrifo a buddsoddi ar gyfer cronfeydd stadau methdaliad a datod;
- cynnal archwiliadau sefydlu ffeithiau cyfrinachol i gwmnïau lle mae o fudd i'r cyhoedd i wneud hynny;
- cynghori Gweinidogion yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) ac asiantaethau eraill o'r llywodraeth am ansolfedd, diswyddo a materion perthynol eraill; ac yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am faterion ansolfedd a diswyddo drwy ein gwefan, taflenni, Llinell Ymholiadau Ansolfedd a Llinell Gymorth Taliadau Diswyddo.

3. Yr hyn na allwn ei wneud

Nid ydym yn gallu:

- rhoi cyngor am broblemau ariannol personol;
- archwilio materion unigolion neu bartneriaethau anghorfforedig yn absenoldeb gorchymyn methdaliad;
- talu cyflogau na chyflog gwyliau lle nad yw'r cyflogwr yn destun gweithdrefn ansolfedd ffurfiol;
- mynegi barn am enw da cwmni na rhoi geirada i chi (credyd neu fel arall) ar gyfer cwmni neilltuol;
- eich helpu i ddatrys unrhyw anghydfod sydd gennych gyda chwmni;
- eich helpu i adennill unrhyw arian sy'n ddyledus i chi;

- ymyrryd mewn unrhyw anghydfod rhwng cwmni a'i gyfranddalwyr na datrys anghydfod rhwng rheolwyr cwmni;
- archwilio cwmnïau heb gyfeiriad busnes yng Nghymru, Yr Alban neu Loegr;
- cwmnïau sydd wedi cael eu diddymu;
- cwmnïau sydd yn cael eu harchwilio gan rywun arall, fel yr heddlu.

4. Cyflwyno Gwasanaeth

Mae ein dull o ganolbwyntio ar y cwsmer yn cael ei gydnabod gan yr achrediad Nod Siarter yr ydym wedi'i ddal yn barhaus ers 1998. Rydym yn amcanu at ddarparu gwasanaeth proffesiynol, teg, effeithlon, cwrtais a defnyddiol i'n holl ddefnyddwyr pa un ai ydynt yn gredydwyr, gweithwyr wedi'u diswyddo, methdalwyr, cyfarwyddwyr, ymarferwyr ansolfedd neu'n wir unrhyw un arall yr ydym yn delio â hwy. Rydym yn cydnabod fod pawb yn wahanol ond dylid trin pawb gyda pharch a dylent gael hawliau cyfartal i gael mynediad at gyfleoedd a'n gwasanaethau. Yn ein gwaith rydym yn ceisio cynnwys a gwerthfawrogi pobl, waeth beth fo'u diwylliant, oedran, lliw, rhyw nag unrhyw nam.

Rydym yn ymrwymedig hefyd i sicrhau fod pobl ag anabledd yn cael mynediad at ein holl wasanaethau.

5. Sut ydym ni'n gwneud hyn?

- Rydym yn gosod safonau gwasanaeth clir, mesuradwy, yn adolygu a chyhoeddi ein perfformiad yn eu herbyn gyda chyn lleied o waith papur diangen a gweinyddu â phosibl.
- Gyda'n defnyddwyr, partneriaid a staff rydym yn sicrhau ein bod yn cyflwyno gwasanaethau o ansawdd da drwy fod yn agored, cyfathrebu yn glir mewn iaith syml a rhoi gwybodaeth am wasanaethau, eu costau a pha mor dda yr ydym yn perfformio.
- rydym yn deg a hygyrch i'r holl ddefnyddwyr sydd yn cyrchu ein gwasanaethau, yn hybu dewis lle bynnag y gallwn ac yn rhoi sylw neilltuol i'r rhai sydd ag anghenion arbennig.
- Rydym yn datblygu a gwella ein gwasanaethau a'n cyfleusterau yn barhaus drwy roi pethau'n iawn yn gyflym ac effeithiol pan geir cwynion, neu pan fynegir anfodlonrwydd - a thrwy ddefnyddio awgrymiadau a chanmoliaeth i ledaenu arfer da.
- Rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol ac arloesol i roi'r gwerth gorau i'r trethdalwr a defnyddwyr.
- Rydym yn cyfrannu at wella cyfleoedd ac ansawdd bywyd yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu drwy fentrau arloesol a defnydd creadigol o adnoddau.

6. Ymgynghori â defnyddwyr a'u cynnwys

Bwrdd Llywio

Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys pobl busnes profiadol, uwch swyddogion BERR, Arolygydd Cyffredinol y Gwasanaeth, a rhai o'i uwch swyddogion. Ymhlith pethau eraill, mae'r Bwrdd yn adolygu ein :

- Cynllun Corfforaethol (sydd yn edrych ymlaen dros gyfnod o dair blynedd at yr hyn y mae'r Gwasanaeth yn bwriadu ei gyflwyno i'w gwsmeriaid a budd-ddeiliaid);
- llywodraeth;
- Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol;
- Targedau cyhoeddedig; a'n
- perfformiad yn erbyn y targedau hynny.

Grŵp Ymgynghorol Cenedlaethol Defnyddwyr (NCUG)

Mae'r NCUG yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol grwpiau budd-ddeiliaid yn cynnwys y Gwasanaeth Llys a Chyngor am Bopeth. Prif bwrpas y grŵp yw:

- sicrhau ein bod yn ystyried anghenion a barn defnyddwyr am sut yr ydym yn darparu gwasanaethau;
- gweithredu fel fforwm i sefydliadau defnyddwyr cenedlaethol i drafod materion ac anghenion defnyddwyr mewn perthynas â'n gwasanaethau; ac yn ein
- helpu ni i adnabod lle gallwn wella safonau gwasanaeth a rhoi'r gwerth gorau am arian.

Grŵp Defnyddwyr Ymarferwyr Ansoffedd

Mae Grŵp Defnyddwyr YA yn cynnwys cynrychiolwyr o'r proffesiwn ansolfedd a chyrrff proffesiynol cydnabyddedig sydd yn awdurdodi a thrwyddedu ymarferwyr ansolfedd. Prif fwriad y grŵp yw darparu fforwm er mwyn i'n Cyfarwyddiaeth Cyfrifon Stadau:

- ddweud wrth ein budd-ddeiliaid sut yr ydym yn perfformio;
- derbyn adborth am ansawdd ein gwasanaeth; ac
- archwilio syniadau budd-ddeiliaid am welliannau dichonol i'r gwasanaeth.

Grwpiau ymgynghori

Mae'r Adran Polisi hefyd yn ymgynghori â defnyddwyr pan fyddwn yn ystyried newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth neu bolisi ansolfedd. Yn achlysurol byddwn yn sefydlu grwpiau ymgynghori ac yn gwahodd cynrychiolwyr o bartïon gyda diddordeb i gymryd rhan.

7. Safonau'r gwasanaeth y gallwch eu disgwyl

Os ewch chi i swyddfa derbynnydd swyddogol	Byddwn yn agored o 9am i 5pm Dydd Llun i Ddydd Gwener. Mae gan bob swyddfa Swyddog Gwasanaeth y Cyhoedd (SGC) sydd yn gallu eich helpu os oes gennych ymholiad. Gwelwch wybodaeth yn y dderbynfa yn rhoi enw a rhif ffôn y SGC. Os ydych angen siarad â'r SGC, yna gofynnwch yn y dderbynfa
Os oes gennych apwyntiad neu wedi trefnu cyfweiliad ffôn	Byddwch yn cael eich gweld neu eich ffonio dim hwyrach na 5 munud ar ôl amser penodedig yr apwyntiad. Os na allwn gyflawni hyn, byddwn yn egluro pam, dweud wrthy ch ba mor hir sy'n rhaid i chi aros, neu gynnig apwyntiad arall i chi.
Os nad oes gennych apwyntiad	Byddwch yn cael eich gweld o fewn 10 munud o'ch amser apwyntiad
Os ydych yn ffonio	Byddwn yn ateb eich galwad rhwng 9am a 5pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener. Rydym yn amcanu at ateb 95% o alwadau o fewn 16 eiliad. Byddwch yn cael eich cysylltu â'r unigolyn sy'n delio â'ch achos chi. Os nad yw'r unigolyn hwnnw ar gael, bydd eich galwad yn cael ei dychwelyd mor fuan ag sy'n bosibl.
Os ydych yn galw ein llinellau cymorth	Rydym yn amcanu at ateb 95% o alwadau i'n llinellau cymorth o fewn 20 eiliad. Byddwn yn ateb ar unwaith yr holl ymholiadau cyffredinol a cheisiadau am wybodaeth gychwynnol am ddeddfwriaeth a gweithdrefnau ansolfedd a diswyddo a gwaith y DS, Taliadau Diswyddo a swyddfeydd Archwilio Cwmnïau. Os na allwn ateb ar unwaith, byddwn yn dod o hyd i'r ateb ac yn ymateb o fewn 24 awr.

Os ydych yn ysgrifennu atom neu'n anfon e-bost atom Byddwn yn ateb o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn, os oes angen ateb. Os na allwn ateb yn llawn, byddwn yn rhoi ateb dros dro o fewn 15 diwrnod gwaith gyda manylion pryd y gallwch ddisgwyl ateb pellach neu ateb llawn. Bydd ein hateb yn cynnwys enw a rhif ffôn y sawl sy'n ateb.

Os oes gennych anabledd neu angen arbennig Os oes gennych anabledd neu angen neilltuol ac yr ydych angen cyfleusterau arbennig pan fyddwch yn ymweld ag un o'n swyddfeydd, gadwch i ni wybod o flaen llaw. Byddwn yn ceisio gwneud trefniadau priodol, a lle bo angen, gall ymweliad â'ch cartref neu gyfweliad ffôn fod yn bosibl.

Os nad ydych yn siarad Saesneg Os nad ydych yn siarad Saesneg ac mae angen cyfieithydd arnoch yn ystod eich cyfweliad mewn swyddfa derbynnydd swyddogol, gadwch i ni wybod o flaen llaw. Gallwch ddod â'ch cyfieithydd eich hun gyda chi. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn trefnu bod cyfieithydd yn bresennol yn y cyfweliad.

Pan fyddwn yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y llys am fethdaliad neu orchymyn dirwyn (gweler 'Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud pan fyddwn yn cysylltu â chi' isod) Bydd y derbynnydd swyddogol yn cysylltu â chi o fewn 2 ddiwrnod gwaith o dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r gorchymyn i:

- gael gwybodaeth gychwynnol;
- trefnu amser apwyntiad os ydych angen cyfweliad un ai yn swyddfa'r DS neu ar y ffôn. Yn achos cyfweliad ffôn, byddwn yn gofyn i chi roi rhif ffôn llinell ddaearol i ni;
- dweud wrthy ch pwy sy'n delio â'ch achos; a
- gadael i chi wybod am unrhyw beth arall sydd angen i chi ei wneud ar y pwynt hwn.

Byddwn yn hefyd yn anfon i chi'r deunyddiau canllawiau canlynol, yn gosod allan prosesau methdaliad neu ddatodiad gorfodol:

- 'What happens when you are interviewed by the official receiver' (Beth sy'n digwydd pan gewch gyfweliad gan y derbynnydd swyddogol) (cyfweliadau ffôn yn unig);
- 'The Insolvency Service Charter' (Siarter y Gwasanaeth Ansolfedd) (cyfweliadau ffôn yn unig);
- 'What will happen to my bank account' (Beth fydd yn digwydd i fy nghyfrif banc);
- 'What will happen to my home' (Beth fydd yn digwydd i fy nghartref); a
- 'A Guide for Directors' (Canllaw i Gyfarwyddwyr) (achosion datodiad cwmni).

Os bydd raid i chi ymweld â swyddfa'r Derbynnydd Swyddogol am gyfweliad, byddwn yn anfon map i chi yn dangos lleoliad y swyddfa, y cyfleusterau parcio a'r cludiant cyhoeddus agosaf.

Byddwch yn cael eich gweld o fewn 5 munud o'ch amser apwyntiad.

Os ydych yn cael cyfweliad ffôn, byddwn yn eich ffonio o fewn 5 munud o'r amser cyfweliad a gytunwyd.

Os ydych yn weithiwr i gwmni ansolfent Byddwn yn rhoi'r canllawiau priodol i chi i'ch helpu i wneud hawliad. Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen hawliad RP1, byddwn yn anfon ffurflen cydnabod RP5 atoch.

Rydym yn amcanu at dalu 78% o hawliadau o fewn 3 wythnos a 92% o hawliadau o fewn 6 wythnos o dderbyn eich cais.

Os ydych yn Ymarferydd Ansoffedd (YA)

Mae Cyfrifon Stadau yn amcanu at:

- brosesu eich ceisiadau am daliad o fewn 4 diwrnod neu erbyn y dyddiad dyledus;
- postio credydau giro banc ar y diwrnod y derbynnir hwy, yn ddibynnol ar drosglwyddiad y stad gan y derbynnydd swyddogol;
- eich hysbysu am brynant neu werthiant warantau llywodraeth ar yr ail ddiwrnod ar ôl eu prynu neu adbrynu (gwerthu);
- cynhyrchu a danfon datganiadau cyfrifon o fewn 5 diwrnod o dderbyn eich cais.

8. Yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud pan fyddwn yn cysylltu â chi

Mae'r DS yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y llys am bob gorchymyn methdaliad neu ddirwyn i ben gan y llys. Wedi derbyn y gorchymyn hwnnw mae gan y DS ddyletswydd i archwilio eich materion chi neu'r cwmni ac i sicrhau a diogelu unrhyw asedau sydd gennych er budd y credydwr.

Os ydych yn fethdalwr, cyfarwyddwr neu swyddog cwmni, mae'n rhaid i chi, yn ôl y gyfraith, ddatgelu gwybodaeth lawn i'r Derbynnnydd Swyddogol am eich asedau ac ymrwymedigaethau chi neu rai'r cwmni, a'r rheswm am yr ansolfedd. Efallai bydd raid i chi fynd i un o'n swyddfeydd derbynnydd swyddogol am gyfweiliad. Gallwch weld manylion pellach yn ein taflen 'Beth sy'n digwydd pan gewch gyfweiliad gan y derbynnydd swyddogol'.

Mewn rhai achosion bydd y DS yn cynnig eich cyfweld dros y ffôn.

9. Targedau cyhoeddedig a safonau'r siarter

Targedau cyhoeddedig

Pob blwyddyn mae'r Gwasanaeth yn gosod cyfres o dargedau perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol a'u cyhoeddi yn y Senedd. Mae'r targedau hyn, sy'n delio â phob agwedd o'n gwaith, yn cael eu datblygu drwy ymgynghori â'n Bwrdd Llywio ac yna yn cael eu cytuno â'n Gweinidog. Mae'r targedau, y gellir eu gweld yn Atodiad B, yn cynnwys:

- amseroedd prosesu;
- effeithlonrwydd;
- gwerth am arian;
- bodlonrwydd defnyddwyr; a
- hyder yn ein trefn gorfodaeth.

Adroddir ein perfformiad yn erbyn y targedau cyhoeddedig hyn yn flynyddol yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol sydd ar gael ar www.insolvency.gov.uk.

Safonau Siarter

Yn ogystal â'n targedau cyhoeddedig, rydym hefyd yn gosod safonau siarter neilltuol, yn datgan y safonau gwasanaeth y gallwch chi, y defnyddiwr, eu disgwyl pan fyddwch yn delio â ni.

Rydym yn datblygu'r safonau hyn yn cael eu datblygu drwy ymgynghori gyda'n defnyddwyr drwy arolygon defnyddwyr, cardiau sylwadau/ awgrymiadau, cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr ac adborth a dderbyniwyd drwy ein gwefan. Mae'r ymgynghori hyn yn ein helpu i ddeall blaenoriaethau ein defnyddwyr gwasanaeth, a'u cynnwys yn ein safonau. Targedau yw ein Safonau Siarter yr ydym yn ceisio eu cyflawni ym mhob achos er nad ydynt yn ymrwymadau.

Rydym yn mesur ein perfformiad yn erbyn y safonau siarter hyn yn barhaus ac yn dangos perfformiad yn eu herbyn yn nerbynfa ein swyddfeydd ac ar ein gwefan ar www.insolvency.gov.uk. Mae'r perfformiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Asiantaeth hefyd. Mae copi o'n perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn 2007-08 ar gael yn Atodiad C.

10. Eich barn chi

Mae'r Gwasanaeth yn ceisio gwella ei wasanaeth i chi yn barhaus. Wrth wneud hynny hoffem wybod a ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth a gawsoch gennym ac yr ydym yn croesawu eich barn ac awgrymiadau. Rydym yn gwerthfawrogi parodrwydd ein defnyddwyr i gymryd rhan a rhoi adborth i ni, yn enwedig wrth i ni gyflwyno systemau a gwasanaethau electronig newydd.

Gallwch fynegi eich barn drwy:

- lenwi cerdyn sylwadau/ awgrymiadau cwsmer, sydd i'w gael yn nerbynfa ein holl swyddfeydd;
- gadael i aelod staff wybod beth yw eich barn;
- rhoi adborth drwy ein gwefan;
- cysylltu â'n Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid yn:
The Insolvency Service
Secretariat Section
Area 5.1
21 Bloomsbury Street
London WC1B 3QW
ffôn: 020 7637 6508 neu
e-bostio: secretariat.section@insolvency.gsi.gov.uk.

Mae ein cardiau sylwadau/ awgrymiadau yn ein helpu i nodi ein blaenoriaethau, eich lefel bodlonrwydd, a'r meysydd lle gallem wella a chyflwyno gwasanaeth sy'n ymateb i'ch anghenion a disgwyliadau. Rydym yn defnyddio'r holl ymateb a dderbyniwn ar ein cardiau sylwadau/ awgrymiadau i lunio'r mynegai boddhad defnyddwyr ar gyfer pob un o'n prif grwpiau defnyddwyr. Mae'r sgorau boddhad hyn yn bwysig iawn i ni ac maent wedi'u cynnwys fel targedau a gyhoeddir ar gyfer 2008-09. Rydym yn adrodd perfformiad yn erbyn ein targedau cyhoeddedig i'n Gweinidog.

Rydym yn croesawu eich adborth am unrhyw agwedd o'n gwasanaeth. Rydym yn trin pob math o adborth o ddifrif, a lle bo'n bosibl, delio ag ef yn brydlon i wella ein gwasanaethau.

11. Os ydych yn credu fod rhywbeth wedi mynd o'i le

Rydym yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, sy'n hygyrch ac yn ymatebol. Fodd bynnag, os ydych yn credu fod rhywbeth wedi mynd o'i le ac nid ydych yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsoch gennym, rydym eisiau i chi ddweud hynny wrthym. Mae gwybodaeth am sut i wneud cwyn a'n gweithdrefn gwyno ar gael yn ein taflen 'Complaints Procedure – Information on making a complaint'. (Trefn Gwyno – Gwybodaeth am wneud cwyn).

Gallwch gael copi o'r daflen hon am ddim hefyd o unrhyw un o'n swyddfeydd, ein gwefan neu Linell Cyhoeddiadau BERR. Am fanylion, edrychwch ar "Cyhoeddiadau" isod.

Gallwch gofrestru cwynion ar lein drwy ein gwefan, hefyd: www.insolvency.gov.uk.

Neu gallwch gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid (cyfeiriad uchod) i drafod pam nad ydym wedi rhoi gwasanaeth o ansawdd da.

12. Ein Gwasanaethau

Gwefan

Rydym yn cynnal gwefan ar www.insolvency.gov.uk.

Mae'r wefan yn cynnwys:

- gwybodaeth a chanllawiau am ddeddfwriaeth ansolfedd;
- manylion cyswllt swyddfeydd y derbynyddion swyddogol, Taliadau Diswyddo a Changhennau Archwilio Cwmnïau;
- ein cyhoeddiadau;
- ystadegau ansolfedd;
- dogfennau ymgynghori a gyhoeddwyd gan Y Gwasanaeth;
- atebion i gwestiynau a ofynnir yn aml; a
- Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y wefan llenwch yr holiadur adborth ar y safle neu e bostiwch ni ar web.admin@insolvency.gsi.gov.uk.

Gwasanaethau ar-lein

Mae'r gwasanaeth canlynol ar gael ar-lein drwy adran 'Gwnewch o ar lein' ein gwefan.

a. Y Gofrestr Unigolion Ansolffent

Mae'r Gofrestr yn cynnwys manylion:

- manylion methdaliadau cyfredol yn cynnwys y rhai sydd wedi dod i ben yn y 3 mis diwethaf; a
- trefniadau gwirfoddol unigol presennol a threfniadau gwirfoddol llwybr carlam.

b. Chwiliad Cyfarwyddwyr a Waharddwyd

Mae'r gronfa ddata yn cynnwys:

- enwau cyfarwyddwyr a waharddwyd ac enw a rhif perthynol y cwmni;
- hyd cyfnod y gwaharddiad; a'r
- rhesymau am eu hanghymwyso.

c. Chwiliad Cyfyngiadau Methdaliad.

Mae'r gronfa ddata, sydd yn rhan o'r gofrestr unigolion ansolfent, yn cynnwys:

- enw methdalwyr unigol gyda gorchmynion cyfyngiadau methdaliad (BROs) ac ymrwymadau cyfyngiadau methdaliad (BRUs); a
- hyd cyfnod y cyfyngiadau a'r rhesymau am y cyfyngiadau.

d. Gwasanaeth Ffurflenni Ar lein

Gallwch lenwi gwahanol ffurflenni ansolfedd drwy'r Gwasanaeth Ffurflenni Ar Lein, ein gwefan ryngweithiol ar lein y gallwch ei defnyddio ar adeg a lle sy'n gyfleus i chi. Gallwch gael gafael ar y gwasanaeth hwn drwy wefan y Gwasanaeth ar www.insolvency.gov.uk.

Dyma'r ffurflenni sydd ar gael i'w llenwi:

- Statement of Affairs in a Debtor's Petition (Datganiad o Faterion mewn Deiseb Dyledwr) – bydd raid i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych eisiau cyflwyno deiseb i'r llys i wneud eich hun yn fethdalwr.
- Creditor's Bankruptcy Petition (CP6) (Deiseb Methdaliad Credydwr) – bydd raid i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych eisiau cyflwyno deiseb i'r llys i wneud unigolyn yn fethdalwr.
- Creditor's Winding-up Petition (CP4) (Deiseb Dirwyn i Ben Credydwr) – bydd raid i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych eisiau cyflwyno deiseb i'r llys i ddirwyn cwmni cyfyngedig i ben.
- Preliminary Information Questionnaire (Holiadur Gwybodaeth Gychwynnol) (DP) – os ydych yn fasnachwr ac yr ydych wedi gwneud eich hun yn fethdalwr ac mae'r DS wedi gofyn am fwy o wybodaeth, yna bydd raid i chi lenwi'r ffurflen hon.
- Bankruptcy Preliminary Information Questionnaire (PIQB) (Holiadur Gwybodaeth Gychwynnol Methdaliad) – holiadur yw hwn y gofynnir i chi ei lenwi os bydd rhywun arall, credydwr, yn eich gwneud yn fethdalwr. Mae ei angen i roi mwy o wybodaeth i'r DS.
- Company Officer Preliminary Information Questionnaire (PIQC) (Holiadur Gwybodaeth Gychwynnol Swyddog Cwmni) – dyma holiadur y gofynnir i gyfarwyddwr cwmni ei gwblhau ar ôl gorchymyn dirwyn i ben, ac mae ei angen i roi mwy o wybodaeth gennych chi i'r DS.

e. Chwiliad achosion o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Mae'r gronfa ddata yn cynnwys manylion:

- pob achos lle mae'r llys wedi penodi DS fel diddymwr dros dro neu dderbynnnydd interim; ac
- achosion eraill a allent fod o fudd penodol i'r cyhoedd.

Penodir derbynnnydd neu ddatodwr dros dro gan y llys i gadw asedau cwmni neu unigolyn nes gwrandawriad deiseb dirwyn i ben neu fethdaliad.

f. Gwneud cwyn am weithrediad cwmni cyfyngedig

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn am weithrediadau cwmni cyfyngedig gallwch gofrestru cwyn ar-lein. Bydd Cangen Archwilio Cwmnïau y Gwasanaeth Ansolfedd yn ystyried cwynion am gwmnïau gweithredol.

Ein cyhoeddiadau

Mae ein cyhoeddiadau ar gael o'n holl swyddfeydd neu ar ein gwefan. Gellir eu harchebu am ddim hefyd o Linell Cyhoeddiadau BERR ar y ffôn, ffacs neu e bostio eich archeb, y cyfeiriad i'w danfon a Chyfeirnod Unigryw (URN) y cyhoeddiad os ydych yn ei wybod. Gallwch gael yr URN o wefan Cyhoeddiadau BERR <http://www.insolvency.gov.ukpublications.htm>.

Archebwch dros y:

- ffôn: 0845 015 0010;
- e bost: publications@berr.gsi.gov.uk;
- ffacs: 0845 015 0020;
- Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

Dangosir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau yn Atodiad D.

Ein llinellau cymorth

Mae'r llinellau cymorth canlynol ar gael 9am–5pm Dydd Llun i Ddydd Gwener. Os na allwn ateb ar unwaith, byddwn yn ymateb o fewn 24 awr.

Mae ein Llinell Ymholiadau Ansoffedd yn delio â galwadau cyffredinol ac yn rhoi gwybodaeth sylfaenol ar ddeddfwriaeth a gweithdrefnau ansolfedd a gwaith y derbynnydd swyddogol. Gallwch ffonio'r llinell gymorth ar 0845 602 9848, neu fel arall gallwch e-bostio eich ymholiad i insolvency.enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk.

Mae ein llinell gymorth taliadau diswyddo yn darparu cyngor am hawliadau diswyddo statudol ac ansolfedd a hefyd yn gweithredu fel porth i lawer o asiantaethau a sefydliadau cyngor eraill. Gallwch ffonio'r llinell gymorth ar 0845 145 0004 neu anfon e-bost at birmingham.rpo@berr.gsi.gov.uk.

Gall ein llinell ymholiadau 'gwasanaeth ffurflenni ar lein' roi help a chymorth i chi gofrestru i ddefnyddio ein gwasanaethau ar lein neu i lenwi ffurflenni ar lein. Gallwch ffonio'r llinell gymorth ar 0845 602 9848, neu e-bostio eich cwestiwn at onlineforms@insolvency.gsi.gov.uk. Cewch fwy o wybodaeth am ein gwasanaeth ffurflenni ar lein ar ein gwefan ar www.insolvency.gov.uk o dan y ddewislen 'Do it Online'.

13. Cysylltiadau

Os ydych angen mwy o wybodaeth neu os oes gennych ymholiad neilltuol am wasanaeth, cysylltwch â'r DS, y swyddfa Taliadau Diswyddo, Cangen Archwilio Cwmnïau neu'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Busnes.

Cysylltu â'r Derbynnnydd Swyddogol

Mae'r DS yn gweinyddu ac yn ymchwilio i faterion methdalwyr a chwmnïau mewn datodiad gorfodol.

Os nad ydych yn gwybod lle mae eich swyddfa leol neu sut i gysylltu â hi drwy e-bost, gallwch:

- ddod o hyd i'r cyfeiriad perthnasol ar ein gwefan;
- ffoniwch y Llinell Ymholiadau Ansoffedd ar 0845 602 9848; neu
- e bostio: insolvency.enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk.

Cysylltu am Daliadau Diswyddo

Mae'r Swyddfeydd Taliadau Diswyddo (RPO) yn asesu a thalu hawliadau statudol i daliadau asesu a thaliadau cysylltiedig pan fydd cyflogwr yn methu neu'n gwrthod talu i'w weithwyr. Os nad ydych yn gwybod lle mae eich swyddfa leol RPO neu sut i gysylltu â hi drwy e-bost, gallwch:

- ddod o hyd i'r cyfeiriad perthnasol ar ein gwefan;
- ffonio Llinell Gymorth Taliadau Diswyddo ar 0845 145 0004; neu
- e bostio birmingham.rpo@berr.gsi.gov.uk.

Mae Pencadlys Taliadau Diswyddo yn rhoi cyngor a briffiau polisi i Weinidogion, swyddogion ac adrannau eraill o'r llywodraeth ar agweddau cyflogaeth diswyddo, ansolfedd a statws cyflogaeth. Mae hefyd yn delio â gohebiaeth gan y cyhoedd am faterion diswyddo.

E bost: redundancy.payments@insolvency.gsi.gov.uk

Cangen Archwilio Cwmnïau (CIB)

O dan Ddeddf Cwmnïau Act 1985, mae gan y Gangen Archwilio Cwmnïau yr hawl i archwilio cwmnïau cyfyngedig gweithredol. Mae archwiliadau CIB yn gyfrinachol, felly nid yw CIB yn rhoi rhesymau penodol i gyfarwyddwyr cwmni am archwilio eu cwmni. Ni fydd CIB yn hysbysu pobl sydd wedi cwyno am gwmni a yw'n cynnal archwiliad na pha beth, os rhywbeth, y mae wedi'i ddarganfod yn ystod archwiliad.

Os ydych eisiau cysylltu â CIB dylech ysgrifennu yn y lle cyntaf at:

Companies Investigation Branch
Ground Floor
21 Bloomsbury Street
London WC1B 3QW.

Ebost: Vetting.section@berr.gsi.gov.uk

Gwasanaethau Corfforaethol a Busnes

Mae gan y Gwasanaeth sawl adran Gwasanaethau Corfforaethol a Busnes sy'n cefnogi gwaith y DS, Swyddfeydd Taliadau Diswyddo a Changen Archwilio Cwmnïau. Rhoddir manylion gwaith yr adrannau hyn a sut i gysylltu â hwy isod.

Cyfarwyddiaeth Gorfodi

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gorfodi yn gyfrifol am:

- swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran adolygu adroddiadau ymddygiad a dderbynnir gan ymarferwyr ansolfedd;
- awdurdodi gwahardd cyfarwyddwyr ac achosion cyfyngiadau methdaliad;
- cydlynu â'r awdurdodau erlyn wrth iddynt erlyn troseddau a ganfuwyd mewn achosion ansolfedd personol a chorfforaethol; a
- rheoli camau terfynol achosion gwahardd mewn partneriaeth â DS a Thimau Archwilio, yn cynnwys cydlynu â chyfarwyddwyr a thrin a thrafod ymgymeriadau gan, er enghraifft, methdalwyr a chyfarwyddwyr.

Cysylltwch â ni ar: Enforcement.Hotline@insolvency.gsi.gov.uk

Llinell Gorfodaeth Gyflym

Os oes aelod o'r cyhoedd yn meddwl fod cyfarwyddwr a waharddwyd neu unigolyn sy'n destun Gorchymyn neu Ymgymeriad Cyfyngiadau Methdaliad yn torri amodau eu gwaharddiad neu gyfyngiad, gallant wneud cwyn drwy alw'r Llinell Gorfodaeth Gyflym ar 0845 601 3546.

Cysylltwch â ni ar: Enforcement.Hotline@insolvency.gsi.gov.uk

Y Gyfarwyddiaeth Archwiliadau

Mae'r Gyfarwyddiaeth Archwiliadau yn archwilio ymddygiad cyfarwyddwyr yn dilyn datodiad gwirfoddol credydwyr a derbynyddiadau gweinyddol. Hefyd, lle bydd o ddiddordeb i'r cyhoedd, bydd yn archwilio trafodion, o dan adran 6 Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986, i wahardd unigolion rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr.

Ebost: invest.dir@insolvency.gsi.gov.uk

Adran Ariannol

Mae'r Adran Ariannol yn gyfrifol am drin a thrafod ein taliadau a derbyniadau (ar wahân i daliadau stadau ansolfent, sy'n cael eu trin gan ei Cyfrifon Stadau).

E bost: Finance.Planning@insolvency.gsi.gov.uk

Adnoddau Dynol

Mae Adnoddau Dynol (AD) yn gyfrifol am adolygu, llunio a gweithredu polisiau, gweithdrefnau ac arferion AD. Mae'n gweinyddu ein swyddogaeth personél ac yn sicrhau fod gennym weithlu medrus, arloesol, amrywio a phroffesiynol.

E bost: Human.Resources@insolvency.gsi.gov.uk

Adran Polisi Ymarferydd Ansoffedd

Mae'r Adran Polisi Ymarferydd Ansoffedd (PYA) yn gyfrifol am holl faterion polisi perthynol i awdurdodi a rheoliad ymarferwyr ansoffedd ym Mhrydain Fawr, Mae'r Uned Ymarferydd Ansoffedd (UYA) yn gyfrifol am holl faterion polisi perthynol i awdurdodi a rheoliad ymarferwyr ansoffedd, yn cynnwys rheoliad y Cyrff Proffesiynol Cydnabyddedig (CPC). Yr UYA yw'r prif gyswllt gyda'r CPC a grwpiaucynrychioliadol eraill o'r proffesiwn ansoffedd yn gyffredinol. Mae'r uned yn cyhoeddi canllawiau i Ymarferwyr Ansoffedd ac yn rhoi cyngor i Weinidogion, swyddogion a'r cyhoedd ar reoliad Ymarferwyr Ansoffedd.

Ebost: IPPolicy.Section@insolvency.gsi.gov.uk

Uned Ymarferydd Ansoffedd

Mae'r Uned Ymarferydd Ansoffedd (IPU) yn gyfrifol am holl swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag ymarferwyr ansoffedd. Fel yr awdurdod cymwys, mae'n prosesu ceisiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hawdurdodi i weithredu fel YA. Mae'n delio â chwynion am ymddygiad ymarferwyr a awdurdodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mae cwynion am ymarferwyr eraill yn cael eu trin gan eu cyrff proffesiynol). Mae'n penodi ymddiriedolwyr a diddymwyr ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol a lle bo'n briodol, mae'n delio â chael gwared ohonynt neu eu hymddiswyddiad. Mae'r UYA hefyd yn cynnal y gofrestr o drefniadau gwirfoddol unigol a'r cyfleusterau ymchwilio am weithredoedd trefniant.

E bost: IPU.email@insolvency.gsi.gov.uk

Gwasanaethau Cyfrifon Stadau

Mae'r adran Cyfrifon Stadau yn darparu gwasanaethau cyfrifo a buddsoddi stadau ar gyfer YA a dal arian ar ran derbynyddion swyddogol.

E bost: EAD.Enquiries@insolvency.gsi.gov.uk

Swyddfa'r Wasg

Mae ein Swyddfa'r Wasg yn gyfrifol am gynrychioli'r Gwasanaeth i'r cyfryngau.

E bost: press.office@insolvency.gsi.gov.uk

Polisi

Mae'r Uned Bolisi yn gyfrifol am bob agwedd o bolisi ansolfedd yng Nghymru a Lloegr ac am rai agweddau o bolisi ansolfedd corfforaethol yn yr Alban. Mae'n:

- monitro gweithrediad deddfwriaeth ansolfedd;
- yn rhoi cyngor i Weinidogion, swyddogion a'r cyhoedd ar bolisi ansolfedd; ac yn
- ystyried agweddau ansolfedd deddfwriaeth arall, yn cynnwys mentrau'r Undeb Ewropeaidd.

E bost: Policy.Unit@insolvency.gsi.gov.uk

Uned Strategaeth, Cyfathrebu a Chynllunio Busnes

Mae'r Uned hon yn gyfrifol am ddelio â materion cyffredinol y Gwasanaeth, er enghraifft:

- materion gwasanaeth cwsmeriaid a Nod Siarter;
- ein Mynegai Bodlonrwydd Defnyddwyr;
- y weithdrefn gwyno;
- mentrau ansawdd eraill;
- y wefan;
- cynhyrchu Cynllun Strategol y Gwasanaeth ac Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Asiantaeth;
- rhoi cefnogaeth rheolaeth i uwch reolwyr.

e-bost: secretariat.section@insolvency.gsi.gov.uk

Mae ein taflen 'A Guide to The Insolvency Service' (Canllaw i'r Gwasanaeth Ansolfedd) yn rhoi mwy o wybodaeth am waith ein hadrannau.

Atodiad A - Rhestr o fudiadau defnyddiol

Nid ydym yn gallu rhoi cyngor am broblemau ansolfedd penodol na materion perthynol i ddiswyddo; er enghraifft, a ddylech fynd yn fethdalwr neu a ddylai eich cwmni gael ei ddatod, neu a ddylech edrych ar weithdrefnau ansolfedd eraill.

Rhoddir rhestr o sefydliadau sy'n gallu rhoi cyngor am ddim isod. Mae llawer o sefydliadau eraill yn gallu rhoi cyngor am faterion perthynol i ansolfedd a diswyddo, ond gallant godi ffi am eu gwasanaeth. Dylech bob amser holi beth fydd y ffi hon pan fyddwch yn cysylltu â hwy. Neu, efallai byddai'n well gennych geisio cyngor cyfreithiol annibynnol. Rydym yn argymhell eich bod yn dewis gweithiwr proffesiynol sydd wedi cael ei achredu gan Wasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yr Arglwydd Ganghellor (CLS) ac sy'n meddu Nod Ansawdd CLS. Gallwch ganfod mwy am hyn ar www.clsdirect.org.uk. Ni all y Gwasanaeth Ansolfedd dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am yr wybodaeth, cyngor neu wasanaethau eraill a ddarparwyd gan sefydliadau eraill.

Sefydliad	Pwy ydyn nhw	Manylion cyswllt
Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS).	Corff cyhoeddus yw'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) sy'n cael ei ariannu gan y trethdalwyr. Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth am ddim am faterion yn ymwneud â gwaith.	Llinell Gymorth: 08457 474747 Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 8am–6pm Gwefan: www.acas.org.uk . Mae yna fanylion ar wefan ACAS am swyddfeydd lleol ACAS.
Business Debtline	Mae Business Debtline yn darparu gwasanaeth cynghori am ddyled am ddim ar y teleffon i bobl hunangyflogedig a busnesau bach sy'n wynebu caledi ariannol. Mae'r cyngor yn ddi-dâl, yn annibynnol ac yn gyfrinachol.	Llinell Gymorth: 0800 197 6026 Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 10am–4pm. Gwefan: www.bdl.org.uk
Cyngor Ar Bopeth	Elusen gofrestrdig yw Canolfan Ar Bopeth sy'n cynnig cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim mewn mwy na 700 o fannau ledled y DG.	Llinell Gymorth: 0207 833 2181 i ddod o hyd i'ch Canolfan Cyngor Ar Bopeth lleol (CAB). Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 8am–6pm. Gwefan: www.citizensadvice.org.uk sy'n cynnwys cyfeiriadur o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth lleol. I gael cyngor, ewch i wefan Cyngor CAB yn www.adviceguide.org.uk
Community Legal Advice (CLA)	Gwasanaeth cyfrinachol, am ddim yw CLA sydd wedi'i ariannu drwy gymorth cyfreithiol. Mae'n cael ei ariannu gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'i gyflwyno mewn partneriaeth ag asiantaethau cyngor a chyfreithwyr annibynnol.	Llinell Gymorth: 0845 345 4345 Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 9am–6.30pm. Gwefan: www.clsdirect.org.uk

Sefydliad	Pwy ydyn nhw	Manylion cyswllt
Consumer Credit Counselling Service (CCCS)	Elusen gofrestredig yw CCCS sy'n ymroi i ddarparu cyngor cyfrinachol am ddim a chymorth i reoli arian i deuluoedd ac unigolion sydd mewn ffwdan yn ariannol. Mae'n darparu cyngor am drefnu arian; cyngor am ddefnyddio credyd yn ddoeth; a phan fydd yn briodol mae'n darparu cynlluniau ymarferol i ad-dalu dyledion.	Llinell Gymorth: 0800 138 1111 Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 8am–8pm Gwefan: www.cccs.co.uk
Consumer Direct	Consumer Direct yw'r gwasanaeth ffôn ac ar lein a ariannwyd gan y llywodraeth sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor am faterion defnyddwyr. Mae Consumer Direct yn cael ei ariannu gan y Swyddfa Masnach Deg ac yn cael ei weithredu mewn partneriaeth â Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol.	Llinell Gymorth: 0845 404 0506 Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 8am–6.30pm. Sadyrnau 9am–1pm. Gwefan: www.consumerdirect.gov.uk
Lawyers For Your Business (LFYB)	Menter gan Gymdeithas y Gyfraith yw LFYB sy'n cynrychioli tua 1,400 o gwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr sydd wedi dod ynghyd i sicrhau bod busnesau, yn enwedig y rhai bach sy'n cael eu rheoli gan eu perchnogion, yn gallu cael cyngor cyfreithiol cadarn pan fydd ei angen.	Llinell Gymorth: 020 7405 9075 Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 9am - 5.30pm. Cewch restr o'r cyfreithwyr yn eich ardal sy'n aelodau (gan gynnwys gwybodaeth am feysydd gwaith arbenigol a'r ieithoedd a siaredir) a thaleb i gael sesiwn gynghori yn ddi-dâl. Gwefan: http://www.lawsociety.org.uk/choosin_gandusing/helpyourbusiness/foryour_business.law
National Debtline	Mae National Debtline yn darparu cyngor arbenigol annibynnol a chyfrinachol am ddim ar y teleffon i unrhyw un sy'n cael anhawster ariannol. Bydd galwyr yn cael pecyn gwybodaeth hunangymorth am ddim.	Llinell Gymorth: 0808 808 4000 Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 9am–9pm a Sadyrnau 9.30am–1pm. Gwefan: www.nationaldebtline.co.uk
Gwasanaeth Busnesau Bach (SBS)	Un o asiantaethau'r Llywodraeth yw'r Gwasanaeth Busnesau Bach (SBS) sydd wedi ei sefydlu i helpu busnesau bach a darparu iddyn nhw un ffynhonnell unigol o wybodaeth a chyngor o safon.	Llinell Gymorth: 0207 215 5000 Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener 8.30am–5.30pm. Gwefan: www.sbs.gov.uk

Atodiad B – Targedau cyhoeddiedig y Gwasanaeth Ansoffedd 2008-09

Targedau cyhoeddiedig Targed 2008-09	Target 2008-09
Gostwng ffioedd gweinyddu achosion ansolfedd mewn termau gwirioneddol o lefel 2007-08 erbyn 2010-11	15% (targed 3 blynedd)
Mynegai Bodlonrwydd Defnyddwyr	92%
Lefelau hyder y cyhoedd yn nhrefn gorfodi'r Gwasanaeth	66%
I ostwng yr amser cyffredinol o geisio gorchymyn ansolfedd i ddechrau achosion gweithdrefnau gwahardd mewn achosion priodol	20 mis
Cynyddu maint allbynnau gorfodi yn 2008-09 o linell gychwynnol 2007-08 o	7%
Cwblhau ystyried cwynion dilysu am gwmnïau gweithredol o fewn 2 fis	90%
Cwblhau ymchwiliadau mewnol i gwmnïau gweithredol o fewn 6 mis	90%
Prosesu hawliadau Taliadau Diswyddo i'w talu o fewn 3 Wythnos 6 Wythnos	78% 92%

Ar ben y targedau hyn, mae'r ofynnol i'r Gwasanaeth fodloni targedau a gyhoeddir yn ganolog mewn perthynas ag ateb gohebiaeth gan Aelodau Seneddol, gwneud taliadau i gyflenwyr a gostwng lefelau absenoldeb salwch. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn edrych i gadw'r achrediad Nod Siarter a Buddsoddwyr mewn Pobl yn dilyn ein hailasesu yn ystod 2008-09.

Targedau Eraill Targed 2008-09	Target 2008-09
Ateb gohebiaeth gan Aelodau Seneddol o fewn 10 niwrnod	100%
Prosesu taliadau i gyflenwyr mewn 30 diwrnod	100%

Mae Atodiad B yn gyfieithiad o ddetholiad o ddatganiad gan y Gweinidog a gyhoeddwyd yn y Senedd ac mae wedi'i eithrio o'r Safon Saesneg Clir.

Atodiad C - Perfformiad yn erbyn Safonau Siarter

	2006-2007		2007-2008	
	Gwirioneddol	Targed	Gwirioneddol	Targed
Bydd gohebiaeth sydd angen ei ateb yn cael ei gydnabod o fewn 5 niwrnod gwaith gyda dyddiad ateb penodol neu'n cael ei ateb o fewn 15 diwrnod gwaith o'i dderbyn	86.5%	(95%)	87.7%	(90%)
Bydd ymwelwyr heb apwyntiad yn cael eu gweld o fewn 5 munud o gyrraedd	95.5%	(95%)	95.1%	(95%)
Bydd ymwelwyr heb apwyntiad yn cael eu gweld o fewn 10 munud o gyrraedd	90.4%	(95%)	92.6%	(90%)
Bydd pob galwad i'n swyddfeydd/adrannau rhwng 9am a 5pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener, yn cael eu hateb o fewn 16 eiliad	95.2%	(95%)	95.2%	(95%)
Bydd pob galwad i'r Llinell Ymholiadau Ansoffedd yn cael ei ateb o fewn 20 eiliad	96.9%	(95%)	See Note*	
Bydd y derbynnydd swyddogol yn cysylltu â'r methodalwr / cyfarwyddwr o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'r Gwasanaeth Ansoffedd yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r gorchymyn llys	90.1%	(90%)	92.6%	(90%)
Cynhelir y cyfweiliad ffôn/bydd y methodalwr yn derbyn galwad ffôn o fewn 5 munud o'r amser cyfweiliad a gytunwyd	99.3%	(95%)	99.2%	(95%)

* Yn ystod y flwyddyn cawsom broblemau gyda'n meddalwedd monitro galwadau Felly, rydym wedi methu adrodd am ein perfformiad yn erbyn targedau i ateb galwadau a dderbyniwyd gan linell ymholiadau'r gwasanaeth ansolfedd. Yn yr un modd, nid ydym wedi gallu adrodd ar ein perfformiad o ran cyflymder ymateb ein swyddfeydd ac adrannau.

Atodiad D – Rhestr Cyhoeddiadau

Gwybodaeth am y Gwasanaeth

Guide to The Insolvency Service (Canllaw i'r Gwasanaeth Ansolfedd)

* The Insolvency Service Charter (Siarter y Gwasanaeth Ansolfedd)

Complaints procedure - Information on making a complaint (Gweithdrefnau Cwyno - Gwybodaeth am wneud cwyn)

The Insolvency Service Publication Scheme (Cynllun Cyhoeddi y Gwasanaeth Ansolfedd)

Gwybodaeth am weithdrefnau ansolfedd

* Guide to Bankruptcy (Canllaw i Fethdaliad)

* A Guide for Creditors (Canllaw i Gredydwyr)

* A Guide for Directors (Canllaw i Gyfarwyddwr)

Bankruptcy Restrictions Orders (Gorchmynion Cyfyngiadau Methdaliad)

Fast-Track Voluntary Arrangements (Trefniadau Gwirfoddol Llwybr Carlam)

When will my bankruptcy end? (Pryd fydd fy methdaliad yn dod i ben?)

* What will happen to my home? (Beth fydd yn digwydd i fy nghartref?)

What will happen to my bank account? (Beth fydd yn digwydd i fy nghyfrif banc?)

Income Payment Agreements and Income Payment Orders (Cytundebau Taliadau Incwm a Gorchmynion Taliadau Incwm)

Can my bankruptcy be cancelled? (A ellir canslo fy methdaliad?)

Individual Insolvency Register (Cofrestr Unigolion Ansolffent)

* What happens when you are interviewed by the Official Receiver? (Beth sy'n digwydd pan gewch gyfweiliad gan y derbynnydd swyddogol?)

What will happen to my pension? (Beth fydd yn digwydd i fy mhensiwn?)

Re-use of a company name after liquidation (Ailddefnyddio enw cwmni ar ôl datodiad)

Alternatives to bankruptcy (Beth yw'r dewisiadau yn lle methdaliad)

Gwybodaeth am weithdrefnau gwahardd

Company Directors Disqualification Act 1986 and Failed Companies (Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986 a Chwmnïau sydd wedi Methu)

Company Directors Disqualification Act 1986 and Disqualified Directors (Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986 a Chyfarwyddwyr wedi'u Gwahardd)

Enforcement Hotline - What the hotline is and how to use it (Llinell Gymorth Gorfodaeth - Beth yw'r llinell gymorth a sut i'w defnyddio)

Effects of a Disqualification Order (Effeithiau Gorchymyn Anghymwyso)

Ymarferwyr Ansolffedd

Trustees and liquidators in bankruptcies and compulsory liquidations (Ymddiriedolwyr a diddymwyr mewn methdaliad a datodiad gorfodol)

Deddf Anghymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986: Guidance notes for insolvency practitioners on the completion of statutory reports and returns (Canllawiau i ymarferwyr ansolfedd am gwblhau adroddiadau a ffurflenni statudol)

How to make a complaint against an insolvency practitioner (Sut i wneud cwyn am ymarferydd ansolfedd)

Dealing with debt (Delio â Dyled)

How to petition for your own bankruptcy (Sut i ddeisebu am eich methdaliad eich hun)

How to make someone bankrupt (Sut i wneud rhywun yn fethdalwr)

How to wind up a company that owes you money (Sut i ddirwyn cwmni sydd arno arian i chi i ben)

How to wind up your own company (Sut i ddirwyn eich cwmni eich hun i ben)

How to wind up a partnership (Sut i ddirwyn partneriaeth i ben)

Gwasanaeth ffurflenni ar lein ac ymholiadau cyffredinol

Unrhyw gwestiynau? Gwybodaeth ar y Llinell Ymholiadau Ansolfedd

Gwasanaeth Ffurflenni Ar Lein - Meddwl am Fethdaliad? Llenwi eich ffurflenni ar lein

Gwybodaeth am ddiswyddo

Redundancy and Insolvency – A Guide for Employees – including the claim for payments from the National Insurance Fund (Diswyddo ac Ansolfedd - Canllawiau i Weithwyr - yn cynnwys hawlio taliadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol)

A guide for insolvency practitioners to employees' rights on the insolvency of their employer - Canllawiau i Ymarferwyr Ansolfedd am Hawliau Gweithwyr wedi Ansolfedd eu Cyflogwr

Ffurflenni diswyddo

Claim for payments from the National Insurance Fund (Form RP1) (Hawlio taliadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol - Ffurflen RP1)

Gwybodaeth am archwilio cwmnïau

Company investigation – What does Companies Investigation Branch do? (Archwilio Cwmnïau - Beth mae'r Gangen Archwilio Cwmnïau yn ei wneud?)

Mae'r ffurflenni hyn ar gael ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk

**Mae'r cyhoeddiadau hyn ar gael ar y wefan mewn Urdu a Tsieinëeg Traddodiadol a Sylheti. Ar ben hynny, maent ar gael ar dâp sain, os gofynnir am un, o swyddfeydd y Derbynnnydd Swyddogol.*

Mae tudalen gefn y cyhoeddiad hwn yn rhoi manylion am sut i gael copïau pellach o'r holl daflenni a restrir uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu rydych eisiau mwy o wybodaeth am gyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ansolfedd neu ein gwefan, cysylltwch â'r Uned Strategaeth, Cyfathrebu a Chynllunio Busnes yn: Area 5.1, 21 Bloomsbury Street, London WC1B 3QW neu ar 020 7291 6709 neu e-bost: web.admin@insolvency.gsi.gov.uk

© **Hawlfraint y Goron 2008.**

Gellir ailgynhyrchu defnydd hawlfraint y Goron yn ddi-dâl mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng heb fod angen caniatâd penodol. Mae hynny'n amodol ar ailgynhyrchu'r defnydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn ffordd ddifenyddol nac mewn cyd-destun camarweiniol. Lle caiff y defnydd ei gyhoeddi neu ei roi i bobl eraill, dylid cydnabod y ffynonellau a'r statws hawlfraint. Pe bae cyfyngiad ar ailgynhyrchu, byddai unrhyw fwriad arall i ddefnyddio'r defnydd yn amodol ar gael cymeradwyaeth Uned Llyfrfa Ei Mawrhydi. Dylid gwneud cais i HMSO's Licensing and Information Policy Team, The Office of Public Sector Information, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ. Ffôn: 01603 621000 Ffacs: 01603 723000.

Nid yw'r caniatâd i ailgynhyrchu defnydd hawlfraint y Goron yn cynnwys unrhyw ddefnydd yn y llyfryn hwn a nodir fel hawlfraint trydydd parti. Byddai angen cael awdurdod i ailgynhyrchu defnydd felly gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. I gael rhagor o fanylion am drwyddedu hawlfraint y Goron, gweler yr arweiniad cyfredol yn <http://www.opsi.gov.uk/advice/crown-copyright/copyright-guidance/index.htm> a gyhoeddwyd gan Y Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar gyfer HMSO

Gallwch gael rhagor o gopïau o'r llyfryn hwn o'r wefan ganlynol:
<http://www.berr.gov.uk/publications>.

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010 (codir y gyfradd genedlaethol am alwadau i'r rhif hwn). Gallwch hefyd ffacsio archebion i'r Llinell Archebu ar 0845 015 0020. Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

Mae cyhoeddiadau ar gael hefyd ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk.